



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella Iechyd
Cyhoeddus Cymru – Heb eu cadarnhau
18 Mai 2022, 09:30
a Gynhaliwyd dros Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) a Chadeirydd Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Hefyd yn bresennol:		
Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion GIG/ Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru (<i>gadawodd y cyfarfod 10:30 - 11am</i>)
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Beverly Gregory	(BG)	Nyrs Ymgynghorol (ar gyfer eitemau 4.6 a 5.1)
Mark Griffiths	(MG)	Arweinydd Arloesi Gwelliant Cymru (ar gyfer eitem 3)
Felicity Hamer	(FH)	Pennaeth Strategaeth ac Arloesi Gwelliant Cymru (ar gyfer eitem 3)
Sharon Hillier		Cyfarwyddwr Adran Sgrinio (ar gyfer eitem 4.7)
Wayne Jepson	(WP)	Arweinydd Rhaglen/Cynghorydd Gwelliant
Andrew Jones	(AJ)	Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Tîm Gweithredol
Donna Newell	(DN)	Arweinydd Diogelu Enwebedig (ar gyfer eitem 5.2)
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch/ Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (eitem 5.3)
Margaret Rennocks	(MR)	Arweinydd Academi Gwelliant Cymru (eitem 3)
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Cyffredinol a Llywodraethu
Francesca Thomas	(ALI)	Pennaeth Gweithio i Wella (eitem 4.2)
Sarah Thomas	(ST)	Cynrychiolydd Arolygiaeth Iechyd Cymru
Caroline Whittaker	(CW)	Nyrs Arweiniol a Safonau Corfforaethol (eitem 4.4)
Stephanie Wilkins	(SW)	Cynrychiolydd Undeb Llafur

Ymddiheuriadau

Tracey Cooper	(TC)	Prif Swyddog Gweithredol
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio a Chyfarwyddwr Meddygol
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00

QSIC 1/2022.05.18 Croeso, Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd, gan groesawu pawb i'r cyfarfod a nodi, oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 ac oherwydd y canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod.

Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio, er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion. Byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol.

QSIC 2/2022.05.18 Datgan Buddiannau

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Ddiddordeb.

QSIC 3/2022.05.18 Sesiwn Graffu Fanwl - Canolfan Arloesi a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Ganolfan Arloesi a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhoddodd JB gyflwyniad ar y prif feysydd gan amlygu'r canlynol:

- Byddai'r Ganolfan Arloesi a Gwella yn cefnogi Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda dull strategol wedi'i ddiffinio tuag at feithrin gallu ar gyfer gwelliant parhaus cynaliadwy ac arloesi;

- Roedd adolygiad o'r dystiolaeth ac adolygiad o'r llenyddiaeth a oedd ar gael wedi llywio datblygiad y ganolfan arloesi a gwella;
- Elfen allweddol oedd cefnogi ein staff i ddatblygu gallu i wella ac arloesi a rhoi eu syniadau ar waith;
- Themâu ar gyfer ymgysylltu â staff: Diwylliant, Rhannu Dysgu, Uwchsgilio staff a darparu arloesi a gwelliannau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Roedd y blaenoriaethau cyfredol yn canolbwyntio ar: recriwtio, datblygu'r gallu a chytuno ar drefniadau llywodraethu'r hwb, cyn i'r gwaith gwella ddechrau.
- Roedd yr amcanion a'r nodau'n uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Byddai diweddariadau chwarterol ar gynnydd yn cael eu darparu i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella er sicrwydd.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Yr her o wella canlyniadau iechyd y cyhoedd yn yr hirdymor.
- Yr awgrym i ystyried dulliau allanol o ymdrin ag ansawdd, er enghraifft Cymdeithas Ryngwladol Sefydliad Iechyd y Cyhoedd (IAMPHI);
- Yr anogaeth i ystyried ymgysylltu gyda'r rhwydweithiau, yn arbennig y rhwydwaith gofal sylfaenol;
- Trafodaeth am y broses weithredu a phwysigrwydd ymgorffori dull gwella ar bob lefel er mwyn bod yn effeithiol; ar lefel uchel, ymysg rheolwyr canol a thrwy'r Hyrwyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod y gefnogaeth briodol yn cael ei darparu, yn ogystal â chefnogi staff rheng flaen;
- Cysylltiadau gyda gweithredu ar adborth digidol *CIVICA* ac adborth rhagweithiol ar draws holl elfennau Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Pwysigrwydd sicrhau bod hyn yn cynnwys adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau.
- Trafodaeth ar yr amserlenni a sut y byddwn yn gweld gwelliannau ac effaith y gwaith.

Diolchodd KE i'r tîm am y cyflwyniad llawn gwybodaeth ac am y gwaith a wnaed, gan nodi y byddai'r Pwyllgor yn ystyried diweddariadau chwarterol drwy gydol y flwyddyn.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch cynnydd y Ganolfan Arloesi a Gwella.

Nododd KE oblygiadau'r gwaith ar ansawdd o fewn y sefydliad a rôl y Pwyllgor. Cytunwyd bod angen trafodaeth bellach ar y goblygiadau i'r Pwyllgor, gan gynnwys sut y byddai gwybodaeth yn cael ei derbyn a sut y byddai sicrwydd yn cael ei ddarparu.

Camau gweithredu: HB/RBW/JB

Nododd KE hefyd fod arddangosiad o'r system *CIVICA*, ar gyfer Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau, wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf o'r Pwyllgor.

QSIC 4/2022.05.18	Eitemau er Sicrwydd
QSIC 4.1/2022.05.18	Rheoli Risgiau
<p>Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan RBW am reoli risgiau.</p> <p>Dywedodd RBW, yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd o'r chwe risg strategol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 27 Mai 2022, y cynigir mai'r Pwyllgor a fyddai'n goruchwyllo'r camau gweithredu Perthnasol i Risgiau Strategol 1 a 2.</p> <p>Dywedodd RBW fod y Bwrdd wedi ystyried ei barodrwydd i dderbyn risg yn erbyn yr amcanion strategol yn sesiwn ddiwethaf y Bwrdd Datblygu, ac mai'r camau nesaf fyddai adolygiad o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol, yn dilyn cymeradwyo'r Risgiau Strategol wedi'u diweddarau. Adroddodd RBW y byddai'r Pwyllgor yn debygol o gael trosolwg o'r Risgiau Corfforaethol sy'n ymwneud â Sgrinio Llygaid Diabetig a'r risgiau ehangach a oedd yn ymwneud â'r Ddeddf Ansawdd.</p> <p>Nododd y Pwyllgor y diweddariad llafar a ddarparwyd.</p>	
QSIC 4.2/2022.05.18	Adroddiad Gweithio i Wella (Chwarter 4, gan gynnwys Adrodd ar Ddigwyddiadau Cenedlaethol)
<p>Wrth gyflwyno'r adroddiad, dangosodd FT ddetholiad o'r Dangosfwrdd Ansawdd yn y Dangosfwrdd Sicrhau Perfformiad, gan dynnu sylw at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">- Y nifer cynyddol o bryderon yn ymwneud â Sgrinio Serfigol. Pwysleisiwyd y byddai'r Bwrdd yn ystyried y digwyddiad a'r camau nesaf yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd. Tynnodd AJ sylw at y ffaith bod gwersi a ddysgwyd am gyfathrebu wedi'u rhannu ar draws yr is-adran a'r sefydliad yn ehangach;- Roedd dau bryder ynglŷn ag arolwg wythnosol Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd a'r iaith Gymraeg a sut yr oedd y rhain yn cael eu datrys. Cyfeiriodd y Pwyllgor at y drafodaeth gynharach am barodrwydd i dderbyn risg yng nghyd-destun mwy o ymgysylltiad â'r cyhoedd a'r canlyniadau posibl;- Diweddariad ar weithrediad y system rheoli pryderon newydd, <i>Datix Cloud</i> a'r ymdrechion sydd ar y gweill i fireinio'r dangosfwrdd. <p>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod y trefniadau Gweithio i Wella yn cael eu rheoli'n effeithiol.</p>	
QSIC 4.3/2022.05.18	Trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol
<p>Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar gan SS am y trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol.</p>	

Myfyriodd y Pwyllgor ar y trefniadau sydd ar waith a oedd yn golygu bod MK a'i gyfarwyddiaeth yn cadw'r cyfrifoddeb dros reoli a llywodraethu Dyfeisiau Meddygol, ac y byddai RB-W a'r gyfarwyddiaeth yn gyfrifol am gynnal asesiadau diduedd o gydymffurfiaeth a gweithdrefnau. Nododd y Pwyllgor y Gofrestr Dyfeisiau Meddygol Corfforaethol a chynllun gwaith y Grŵp Rheoli Dyfeisiau Meddygol, sydd newydd ei ffurfio.

QSIC 4.4/2022**Safonau Iechyd a Gofal**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd CW gyd-destun hanesyddol y Safonau Iechyd a Gofal, gan fynd yn ei flaen i amlygu cyfeiriad arfaethedig Safonau Iechyd a Gofal yn y dyfodol.

Diolchodd y Pwyllgor i CW am y diweddariad cynhwysfawr gan nodi'r darnau allweddol o waith gwella a'r amcanion ar gyfer Cyfarwyddiaethau fel rhai hanfodol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod proses Safonau Iechyd a Gofal wedi'i chwblhau ar gyfer 2021-22 ac mai sefyllfa gyffredinol y sefydliad yw lefel pedwar.

Cyfeiriodd SW at deitl y gyfarwyddiaeth, sy'n canolbwyntio ar Wasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio. Dywedodd AJ fod teitl newydd y gyfarwyddiaeth yn adlewyrchu teitl MK fel Cyfarwyddwr Cenedlaethol, Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio ond y byddai'n tynnu sylw MK a'i gydweithwyr at hyn.

QSIC 4.5/2022**Egwyl****QSIC 4.6/2022****Ymgyrch Fewnol Brechu rhag y Ffliw 2021-22**

Wrth gyflwyno'r adroddiad, amlinellodd BG y modd y darparwyd y brechiad rhag y fflw, yr heriau a gafwyd a'r camau nesaf ar gyfer 2022-23.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Yr angen am benderfyniad buan er mwyn deall ystod cynllun ymgyrch 2022-23 a'r potensial ar gyfer brechu pigiad atgyfnerthu Covid-19 a'r fflw yn yr un apwyntiad;
- Niferoedd bach yn manteisio ar y brechiad rhag y fflw a'r lefel isel o ymwybyddiaeth, gan edrych ar ddulliau o wella'r rhain yn ystod 2022-23, ac ar yr un pryd, gydnabod y cydbwysedd rhwng codi ymwybyddiaeth ac aflonyddu. Nodwyd bod angen cynnal ffocws penodol ar y staff hynny a oedd yn dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion – gan mai sicrhau diogelwch y claf oedd prif bwrpas brechu'r staff.

Diolchodd y Cadeirydd i BG am ei hymdrechion yn ystod yr Ymgyrch Brechu rhag y Fflw, gan ofyn i'r cynllun ar gyfer 2022-23 gael ei drafod a'i ystyried cyn dechrau'r Ymgyrch nesaf.

Camau gweithredu: RBW/LB

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** am y niferoedd mewnol yn derbyn brechiadau ffliw.

QSIC 4.7/2022**Diweddariad ar adfer y rhaglenni sgrinio yn dilyn effaith y pandemig**

Cyflwynodd SH yr adroddiad drwy ddweud bod Sgrinio Coluddion Cymru a Rhaglen Sgrinio Serfigol Cymru wedi'u hadfer yn unol â'r cynllun. Aeth SH ymlaen i amlinellu'r dull, a oedd wedi'i gynllunio, ar gyfer adfer Bron Brawf Cymru, Sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys cynyddu staffio, lleoliadau sgrinio ac adnewyddu cyfarpar. Disgrifiodd SH y rhaglen drawsnewidiol sy'n cael ei rhoi ar waith i geisio adfer gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Y gwaith sydd ar y gweill ar gyfer yr adolygiad Optometreg;
- Holodd SW am y gwaith ar sicrhau llesiant staff, yn cynnwys cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus briodol ar gyfer y cyfleuster newydd yn Aberpennar a hefyd awgrymodd eu bod yn diweddarau'r asesiad effaith cydraddoldeb
- Diolchodd SH i SW am y pwyntiau uchod gan amlinellu'r dull o ofalu am lesiant y staff, megis cynyddu staffio. Cadarnhaodd fod cysylltiadau trafndiaeth priodol ar gael ar gyfer y cyfleuster newydd yn Aberpennar a'u bod yn diweddarau'r strategaeth anghydraddoldebau;
- Roedd RB-W yn falch o weld bod apwyntiadau ar gael ar benwythnosau, a oedd wedi cael ei godi gan y prif swyddog nyrsio yn ystod cyfarfod adolygu'r Cyd-dîm Gweithredol yn y blynyddoedd blaenorol;
- Bod Iain Bell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth, Ymchwil a Data yn ceisio dylanwadu ar gipio setiau data a metrigau pobl â nodweddion gwarchodedig penodol, er mwyn nodi unrhyw anghydraddoldebau.

Diolchodd y Pwyllgor i SH a'r tîm Gwasanaethau Sgrinio am eu hymdrechion i adennill rhaglenni Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru yn llawn a nododd optimeiddio'r gwasanaeth Sgrinio'r Coluddion.

Aeth y Pwyllgor ati i:

- Gael **sicrwydd** bod y broses o adfer y rhaglenni sgrinio yn mynd yn ei blaen mor brydlon â phosibl.
- **Cefnogi'r** dull a amlinellwyd ar gyfer adfer gweddill y rhaglenni.

QSIC 4.8/2022.05.18**Adroddiad Cynllunio at Argyfwng Llywodraeth Cymru, Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes 2021**

Cyflwynodd AJ Adroddiad Cynllunio Llywodraeth Cymru, Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes 2021.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r adnoddau ychwanegol a fyddai'n galluogi'r gwaith ar welliannau i symud yn ei flaen.

Diolchodd y Pwyllgor i AJ am ei gyflwyniad a chafodd **sicrwydd** mewn perthynas â chydymffurfiaeth y sefydliad â gofynion Deddf Argyfyngau Sifil Posibl [2004] a Chanllawiau Craidd Cynllunio Rhag Argyfyngau GIG Cymru [2015].

QSIC 4.9/2022**Polisiau a Gweithdrefnau: Diweddariad Polisi Ddwywaith y Flwyddyn**

Cyflwynodd LB yr adroddiad ddwywaith y flwyddyn am y Gofrestr o Bolisiau a Diweddariadau i'r Dogfennau Rheolaeth Ysgrifenedig.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r cynllun i ddiweddarau 18 polisi a gweithdrefn i'w hadolygu, a oedd dan gylch gorchwyl y Pwyllgor, gan nodi bod y mwyafrif yn rai risgiau isel.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynglŷn â blaenoriaethu i'r cynnydd ar adolygu'r polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheolaeth ysgrifenedig Ansawdd, Diogelwch a Gwella.

QSIC 5/2022**Eitemau i'w Cymeradwyo****QSIC 5.1/2022****Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2021/2022**

Cyflwynodd BG Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2021/2022.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Y cyflawniadau allweddol a gyflawnwyd yn 2021/22 a'r blaenoriaethau ar gyfer 2022/23;
- Y croeso i Arweinydd Corfforaethol newydd Atal a Rheoli Heintiau ym mis Gorffennaf 2022;
- Bod papur yn cael ei lunio er mwyn sicrhau bod proses yn ei lle i fynd i'r afael a throsglwyddiad nosocomaidd.

Diolchodd y Pwyllgor i BG am y cyflwyniad a chafodd **sicrwydd** ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol Atal a Rheoli Heintiau 2021/2022.

QSIC 5.2/2022**Diogelu: Adroddiad Blynyddol 2021/2022**

Cyflwynodd DP yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu 2021/2022.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Y cyflawniadau allweddol drwy gydol 2021/22 a'r gwelliannau arfaethedig ar gyfer diogelu ar draws y sefydliad;
- Adnabod DC fel Cyfarwyddwr Anweithredol Arweiniol dros Wasanaethau Plant a Phobl ifanc, a'i gwahodd i ymuno â'r grŵp diogelu. Mynegodd DC ei pharodrwydd i ymuno â'r grŵp a chytunodd RBW i drefnu hyn.

Camau gweithredu: DP/RB-W

Diolchodd y Pwyllgor i DP am y cyflwyniad a chafodd **sicrwydd** ynglŷn â'r Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu 2021/2022.

QSIC 5.3/2022**Iechyd a diogelwch****QSIC 5.3.1/2022****Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 4, 2021-22**

Cyflwynodd CO yr adroddiad Iechyd a Diogelwch ar gyfer Chwarter 4, 2021/22.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- Oherwydd y canolbwyntio ar leihau risg COVID-19 drwy gydol y flwyddyn, nid oedd yno adroddiad blynyddol wedi'i baratoi eleni, ond byddai un yn cael ei baratoi ar gyfer 2022/23;
- Y ffigur sefydlog mewn perthynas â hyfforddiant gorfodol ar draws y sefydliad.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y mesurau priodol yn eu lle i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd ar gyfer eu gwella.

QSIC 5.3.2/2022**Cylch Gorchwyl y Grŵp Iechyd a Diogelwch**

Derbyniodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl y Grŵp Iechyd a Diogelwch a'i **gymeradwyo** (cyf. 5.3b QSIC 2022_05_18).

QSIC5.3.3/2022.05.18**Cynllun gwaith Grŵp Iechyd a Diogelwch 2022/23**

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun gwaith y Grŵp Iechyd a Diogelwch 2022-23 a'i **gymeradwyo** (cyf. 5.3c QSIC 2022_05_18).

QSIC 5.4/2022.05.18**Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r cyfarfod**

Aeth y Pwyllgor ati i:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 15, 2022 fel cofnodion gwir a chywir o'r cyfarfod;
- **Cymeradwyo** cau pedwar cam gweithredu ar y cofnod o gamau gweithredu;
- **Nodi** nad oedd unrhyw faterion yn codi.

QSIC 6/2022.05.18**I'w Hargymell i'r Bwrdd****QSIC 6.1/2022.05.18****Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2021/22**

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Blynyddol 2021/22 y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, a oedd yn crynhoi'r meysydd allweddol o weithgarwch busnes a gyflawnwyd.

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad drafft, i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26 Mai, 2022, er sicrwydd bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a

Gwella yn addas at y diben ac yn gweithredu'n effeithiol ac yn cyflawni ei gylch gorchwyl.

QSIC 6.2/2022.05.18 Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor

Ar ddechrau'r cyflwyniad, fe wnaeth LB sylw ar yr adolygiad cynhwysfawr o Berfformiad ac Effeithiolrwydd y Pwyllgor ar gyfer 2021/22, a gwblhawyd yn ddiweddar. Amlinellodd LB y prif themâu a gododd o'r gweithdy, ar draws ystod eang o Bwyllgorau, ynghyd ag elfennau penodol o'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Gorffennodd LB y cyflwyniad gan nodi'r camau nesaf a'r cynllun i adlewyrchu adborth y Pwyllgor yng nghynllun gwaith 2022/23.

Ystyriodd y Pwyllgor bwysigrwydd cynnwys ymgysylltiad â phrofiad y defnyddiwr, gan gynnwys sut y mae cofnodi llais pobl ifanc ac ymgysylltu â Llysgenhadon Ifanc Iechyd Cyhoeddus Cymru. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bwysigrwydd cynnal dull hyblyg ac ystwyth o ran y modd yr oedd y Pwyllgor yn parhau i weithredu wrth ymateb i strategaeth ansawdd ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, yn ychwanegol at Strategaeth a Chynllun y Sefydliad.

QSIC 6.3/2022.05.18 Cylch gorchwyl y Pwyllgor

Argymhellodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, i'r Bwrdd ei gymeradwyo, gan nodi y byddai'n debygol o gael ei adolygu eto yn ystod y flwyddyn.

QSIC 7/2022.05.18 Eitemau i'w Nodi

QSIC 7.1/2022.05.18 Cynllun Gwaith y Pwyllgor 2022/23

Nododd y Pwyllgor Gynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23.

QSIC 7.2/2022.05.18 Adroddiad Archwiliad Mewnol – Rheoli Stoc

Nodwyd Adroddiad Archwilio Mewnol – Rheoli Stoc, gan y Pwyllgor.

QSIC 7.3/2022.05.18 Datganiad Ansawdd Blynyddol – y dull ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2021/2022

Nodwyd Datganiad Ansawdd Blynyddol – y dull ar gyfer Adroddiad Blynyddol 2021/22, gan y Pwyllgor.

QSIC 7.4/2022.05.18 Adroddiad Rhybuddion Chwarter 4

Nodwyd Adroddiad Rhybuddion Chwarter 4 gan y Pwyllgor.

QSIC 7.5/2022.05.18 Trefniadau Llywodraethu a Goruchwyliath y Pwyllgor o ran archwilio 2022/23

Nodwyd Trefniadau Llywodraethu a Goruchwyliath y Pwyllgor ar gyfer archwiliad 2022/23.

QSIC 7.6/2022.05.18 Adborth gan y Pwyllgor

Trafododd aelodau'r Pwyllgor y potensial am gyfarfodydd Pwyllgor teithiol a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Nododd y Pwyllgor y bwriad i ofyn am adborth ychwanegol ar y cyfarfod drwy e-bost.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ar 20 Gorffennaf 20, 2022.

Daeth y sesiwn agored i ben am 12:45

HEB EU CADARNHAU